CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 12. RHIF 6.] MEHEFIN, 1912. [PRIS 2C.

CYNWYSIAD.

AR EDYN FFYDD.
NODION.
GWIRIONEDD CREFYDD.
Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.
Parch. Joseph Wood.
CRI'R AFRADLON. Parch. T. J. Pritchard.
DUW EIN TAD. Parch. R. J. Jones, M.A.
TOLSTOY.
UNDODIAETH YN NEHEUDIR CYMRU.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

— AM —

. . . WALL PAPERS . . .

O BOB MATH A PHOB PRIS

EWCH AT—

J. D. LEWIS, ARGRAFFYDD, LLANDYSSUL.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad. . . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1912. [CYF. XII. RHIF 6.

AR EDYN FFYDD.

DUW EIN TAD.

BETH sy'n dlysach ar y wefus
Na sibrydion gweddi fwyn ?
Er brawddegu'n floesg, annestlus,
Gwrendy'r nef bob gonest gŵyn :
Tyner ydyw'r Tad tragwyddol
Wrth aneirif lu ei blant,
Nid oes plentyn mwy prydweddol
Gan y sanctaidd nag yw'r sant.

Tad goleuni'r greadigaeth,
Tarddle'r fendith ydyw Duw ;
Tad y gwlaw a gwlith pob talaeth
Yw gwarcheidwad dynol ryw ;
Yn ei gariad mae ffynonell
Gwyddor fawr brawdoliaeth dyn ;
Clyw o'i sancteiddiolaf gafell
Gyfrinachau 'i blant bob un.

Dyma Dad y meddwl beiddgar
Nad esponia'r hwn a'i medd ;
Ato hêd pob yspryd hawddgar,
Gyll ei blisgyn yn y bedd ;
Pan yn tremio i eangder
Bywyd yn ei ddwy ystâd,
Syrth o'r galon ofn a phryder
Pan ymbilia ar "Ein Tad."

Ffyddlon Dad pob dim crëedig,
Tad ein Harglwydd Iesu Grist,
Arwain fi, bererin ysig,
O gaethiwed pechod trist ;
Dangos imi'r etifeddiaeth
Rwymaist wrth bechadur tlawd,
Dysg i f' enaid deimlo hiraeth
Am gael cydio'n llaw fy mrawd.

BRYNACH.

NODION.

DYMUNEM yn garedig adgofio holl aelodau ein cyfundeb bychan, a phawb deimlant ddyddordeb yn lledaeniad egwyddorion crefydd rydd, fod pen tymor arianol y Gymdeithas yn agos, a charem weled ein casgliadau a'n cyfraniadau yn cynyddu yn flynyddol. Y mae y Gymdeithas Undodaidd Gymreig wedi gwneyd llawer yn y gorphenol, a thrwy help a chydweithrediad caredig cyfeillion yn mhob man gallai fod yn fwy eto yn y dyfodol. Un gwaith pwysig fydd ganddi yn y dyfodol agos, ydyw dwyn allan Lyfr Tonau ac Emynau at wasanaeth yr eglwysi Cymreig. Deallwn oddiwrth olygydd yr Emynau, y Parch. R. J. Jones, M.A., fod ei lafur mwyaf ef yn agoshau at y terfyn, a bydd y ddarpariaeth gerddorol o hono i ddod o dan ystyriaeth y Pwyllgor yn y Cyfarfodydd Blynyddol. Bydd y draul i ddwyn allan lyfr teilwng, fel ag y credwn y bydd, yn fawr iawn, ac y mae yn ddyledswydd arnom oll i wneud yr hyn allwn er hyrwyddo y mudiad.

Bwriada y Gymdeithas hefyd ddwyn allan lyfr y Parch Joseph Wood yn Gymraeg "Y Beibl yr hyn yw a'r hyn nad yw" tua diwedd y flwyddyn. Heblaw hyn y mae y Gymdeithas yn estyn help i eglwysi gweinion yn flynyddol, a phe buasai ddim ond yn gwneud y gwaith hwn buasai yn ateb dyben ei bodolaeth, ac hefyd yn apêl difrifol at bawb o honom am ein cymhorth llwyraf. Hyderwn y gwna'r holl eglwysi ddanfon eu casgliadau yn amserol i'r Trysorydd, a'r Tanysgrifwyr eu cyfraniadau hwythau.

Agorwch y Blwch.—Peidiwch cadw blwch enaint eich cariad a'ch tynerwch wedi ei selio hyd nes byddo eich cyfeillion wedi marw. Llenwch eu bywydau â melusder yn awr. Llefarwch eiriau o gymeradwyaeth a sirioldeb tra byddo eu clustiau yn alluog i glywed, tra fyddo eu calonau mewn cyflwr i'w cyffroi a'u dedwyddoli. Y geiriau caredig fwriedwch lefaru pan fyddont wedi myned, llefarwch hwy yn awr cyn eu myned. Y blodeu fwriedwch ar gyfer eu coffinau, anfonwch hwy mewn pryd i brydferthu a melusu eu cartref cyn y byddont yn eu gadael. Os oes gan fy nghyfeillion flychau enaint wedi eu gosod o'r neilldu, yn llawn peraroglau o serch a chydymdeimlad, y rhai a fwriadant eu tori ar fy nghorff marw, mi ddymunwn yn hytrach iddynt eu dwyn yn awr yn fy oriau blin a thrafferthus, y'm adgyfnerthir a'm siriolir yn nydd fy angeu. Byddai'n well genyf goffin diaddurn ac heb flodeu, ac angladd heb eiriau canmoliaeth na bywyd heb felusder cariad a chydymdeimlad. Gadewch ini dori blwch enaint i'n cyfeillion yn mlaenllaw cyn eu claddu. Nid yw caredigrwydd ar ol marw ddim yn sirioli'r yspryd lluddedig. Nid yw blodau ar y coffin yn taflu dim peraroglau yn ol dros y llwybrau blin y mae ein hanwyliaid yn gorfod teithio ar hyd-ddynt.

T. P. T.

GWIRIONEDD CREFYDD.*

GAN Y PROFFESWR EUCKEN.

WELE gyfrol o bwysigrwydd mawr; wedi ei hysgrifenu'n wreiddiol gan athronydd crefyddol mwyaf y byd; ac wedi ei chyfieithu gan un o fechgyn disglair ac ymdrechgar Ceredigion. Mae yn gyfrol drwchus, ac er fod ei Saesneg mor llyfn ag y gellir disgwyl i gyfieithiad o'r Ellmyneg yn bosibl fod, nid gorchwyl hawdd yw ei darllen drwyddi; rywfodd mae ei hawyrgylch mor ddieithr i'r darllenydd cyffredin, ac fel y dywed y cyfieithydd y mae yn llawn brawddegau trydanol yn deilliaw o wres ei hawrgylch grefyddol; a golyga hyny gryn dywyllwch i feddwl yr hwn nad yw broffwydd, nag hyd yn oed athronydd ei hunan.

Yn ddiamheu mae'r Dr. Tudor Jones wedi cael caletach gwaith yn cyfieithu'r gyfrol hon nag a gafodd yn torri'r glo yn Morganwg neu yn hela'r ysgyfarnog ar gors Glan Teifi. Dylai'r Sir fod yn falch o'i dalent a'i ddiwydrwydd. "Uwch, uwch, &c., &c."

Egyr y llyfr drwy ddangos ystad bresenol crefydd yn y byd. Gwel yr awdwr y peryglon ofnadwy yr ydym yn myned drwyddynt. Mae'r hen gredo, i raddau helaeth wedi ymddatod, fel pabell o eira, dan oleuni gwyddoniaeth, ac nid ydym wedi llwyddo hyd yn hyn i adeiladu ty ar sylfaen o graig.

Amcan mawr y llyfr pwysig hwn yw dangos sylwedd y Bywyd Ysprydol. Hwn ydyw'r bywyd uchaf; hwn fedr ddwyn dyn i gymundeb a'r dwyfol; mae hwn yn rhywbeth newydd yn enaid dyn—rhywbeth uwch na fedr dim arall gynyrchu.

Trwy ganoedd o dudalenau cerdd Eucken yn ei flaen gyda nerth ac hyfder anarferol i brofi hyn. Gellir dweyd nad oes lyfr erioed wedi dangos mwy o danbeidrwydd, nac wedi llwyddo gystal i osod crefydd ac enaid dyn ar y graig—ar Dduw ei hun.

Yn y rhan bwysig ar Gristionogaeth a'r Presenol, gwelir llawer o bethau ag y bydd raid i'r Eglwysi gymeryd i ystyriaeth, os yw crefydd i fyw a blaguro yn y byd.

Rhydd Eucken y palmwydd i Gristionogaeth fel y grefydd uchaf. Ond dywed bethau heilltion wrth yr Eglwysi. Dengys fel y maent wedi cuddio'r Iesu o dan gredöau a sacramentau a defodau lawer; ac y mae'n anhebgorol angenrheidiol symud y rhai hyn cyn y daw Cristionogaeth yn allu Duw unwaith eto er iachawdwriaeth y byd. Mae ynddi lawer o bethau ag y mae eu dydd wedi myned heibio ac y mae eu bywyd, i raddau mawr wedi pallu.

Ond mae un peth y mae'n anhebgorol i ddal gafael dyn ynddo—y dwyfol mewn Cristionogaeth. Nid rhywbeth gwyrthiol ydyw hwn yn yr Iesu, ond elfen ddwyfol yn yr enaid, elfen ag sydd megys hedyn

---

*"The Truth of Religion." By Professor Rudolph Eucken, translated by Dr. W. Tudor Jones. (Williams & Norgate). 622 pp. 12s. 6d., net.

yn enaid pob dyn. Ond rhaid dadblygu'r hedyn hwn drwy gymundeb a'r dwyfol. Hwn ydyw'r unig nerth a fedr orchfygu'r byd, ac a rydd y Balm o Gilead ar yr enaid torcalonus.

Nid ydym wedi cael hamdden i roddi ond syniad bychan ac anigonol o'r llyfr rhagorol hwn ; yn sicr dylai gael croesaw i lyfrgell pob un sydd yn teimlo dyddordeb mewn athroniaeth a chrefydd : a pha Gymro ieuanc nad yw y pethau hyn yn apelio ato ?

Yn y rhifyn nesaf o Yr Ymofynydd, gobeithiwn gael cyfle ac amser i ddweyd tipyn yn rhagor am y gyfrol werthfawr hon ; ac am ei chyfieithydd Cymreig. Fel y sylwasom eisioes, cynnwys ymborth cryf ; ond nid ar 'fara dwr' y megir cewri, aïe ?

Llongyfarchwn y Dr. Tudor Jones ar ei antur lwyddianus ; a diolchwn iddo am ddwyn y llyfr o fewn cyrhaedd ei gyd-genedl.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

XI.—(Parhad).

Crefydd y Beibl.

Y ffaith yw mai dychymygol hollol yw addysg yr Hen Destament am Iesu Grist ; ni fodola ond yn meddyliau y rhai hyny ydynt wedi eu rhwymo i ryw dduwinyddiaeth neillduol. Beth all fod yn fwy gwrthun na chyfaddasu y gân serch odidog hono, Cân y Caniadau (Solomon), at Grist a'i Eglwys? Nid yw ond megys gwatwarddehongli'r Beibl. Yn ol y cynllun yma o'i drin mae dynion wedi cymeryd dywediadau neilltuedig, a thrwy anwybyddu y cyfodnodau, wedi gwneud iddynt gyfeirio mewn rhyw fodd at y Messiah ; trwy yr un cynllun gellir gwneud i'r Beibl ragddweyd unrhyw beth—gyrfa Napoleon fawr neu gwymp Napoleon fychan. Ac yn wir y mae yna rai welant brophwydoliaeth bron yn mhob dywediad, y rhai gânt bobpeth yn nghylch y ddau Napoleon yn y Beibl. Gadewch i ni adael y ffordd anfuddiol yma o ddehongli am rywbeth mwy cymedrol a sylweddol.

Y prif syniadau roddant unoliaeth i'r Beibl, ymddangosant yn fwy neu lai clir yn ei holl lyfrau gwahanedig ac a'u cylymant wrth eu gilydd yn un cyfanwaith mawr, a'r rhai, a siarad yn gyffredinol, ellir alw yn Grefydd y Beibl, ydynt fel y canlyn :—

1. Yr ymwybodolrwydd o Dduw.
2. Llywodraeth ragluniaethol y byd.
3. Rhyddid a chyfrifoldeb moesol dyn.

4. Cymundeb a'r Dwyfol.
5. Gwneuthur cyfiawnder yn ddirgelwch dedwyddwch.
6. Aberth, yn pasio trwy ddefod ac arwyddlun i yspryd a bywyd, croes Crist yn sefyll am ei amlygiad uwchaf—aberth yr hunan i ddynoliaeth, esmwythder i ddyledswydd, a bywyd i wirionedd.
7. Cynydd y byd tuag at ddyfodol mwy-mwy disglaer.

Nid dyma'r oll; ond hwy ydynt y syniadau safant allan yn amlwg o'r dechreu i'r diwedd. Yn ychwanegol atynt mae gyda ni ddau syniad mawr ydynt yn arbenig i'r Testament Newydd a'r rhai na ddylem esgeuluso.

1. Cariad yn allu cynhyrfiol y bywyd Cristionogol.
2. Sefyllfa ddyfodol ac anfarwoldeb yr enaid.

Nid oes amser i drin ar bob un o'r agweddau hyn o Grefydd y Beibl. Yn gyffredinol chwi sylwch ar ddau beth; (a) nad syniadau haerdybiol a duwinyddol ydynt, ond ymarferol, moesol ac ysprydol; (b) nad gwirioneddau ydynt yn nghylch y rhai yr ymddadla pobl ac eglwysi, eithr yn hytrach gwirioneddau yn nghylch y rhai y cytuna pawb Cristionogion. Sylwch yn neillduol ar ddau o'r syniadau mawr ac arweiniol hyn.

Yn gyntaf, yr ymwybodolrwydd o Dduw. O "Salm y Cread" gyda'r hon y dechreua'r Beibl hyd at freuddwydion a gweledigaethau ardderchog Dadguddiad, mae yna un peth nas gellir ei gamsynied—teimlad dyn o'i gysylltiad a Duw a'i ymddibyniad arno.

Gwelwn y meddwl am Dduw yn gweithio ei hun yn glir oddiwrth ofergoel, culni a phleidgarwch, allan i'r fath ddywediadau a "Cariad yw Duw," "Goleuni yw Duw," "Yspryd yw Duw," y rhai roddant ysprydoliaeth newydd i ni. Gwelwn ddyn yn ymbalfalu yn ddiddiwedd am Dduw, os o ddamwain y gall gael gafael am dano; gwelwn a gwneir i ni deimlo a chyfranogi yn nhaergais anattaladwy yr enaid am berffeithrwydd uwchlaw i ni, tuag at yr hwn y gwthia yr oesau llawn o ymdrech ac ymryson y byd ychydig yn nes. Gogoniant y Patriarchiaid oedd fod eu calonau yn curo mewn cyd-ymdeimlad wrth y meddwl am Dduw. Gyda'u holl ffaeleddau, gwendidau a'u gweithredoedd anfoesol, 'roedd ganddynt syniad uwch am Dduw nag eiddo eu hoes; treulient eu bywydau yn mhresenoldeb yr Anweledig; nid oedd Duw iddynt hwy, fel i'r bobl o'u hamgylch, yn achos dychryn direswm a llwfr. *Cyfaill* yw Duw Abram nad oes eisiau ei gymodi ag aberth dynol—arferiad tywyll a dinystriol y dysgir Abram i'w adael ar ol. Mor llawn y mae salm a phrophwydoliaeth o'r meddylddrych am Dduw! *"Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw,"** *"Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf,"*† *"Dangos i mi lwybr bywyd, digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd,"*‡ *"Ceisiwch yr Arglwydd, tra y galler ei gael ef; gelwch arno tra fyddo yn agos."*§ Ac felly yr ä yn mlaen o dudalen i dudalen ac o lyfr i lyfr, hyd nes y cawn yr ymwybodol-

---

*Salm xlii. 1. †Salm xxiii. 1. ‡Salm xvi. 2. § Esaiah lv. 6.

rwydd arbenig hwnw o Dduw oedd yn Iesu Grist—yr undeb hwnw o ddyn a Duw fynega efe yn y geiriau, "*Myfi a'r Tad un ydym,*"* fel mewn canlyniad fod Duw yn meddwl trwy ei feddwl ef ac yn caru trwy ei gariad ef, ac fod ganddo y teimlad hwnw o undod a Duw wnai unigrwydd yn amhosibl hyd yn nod o dan gusan Judas a chabledd Pedr. Mae'r holl Feibl yn fyw gyda'r ymwybodolrwydd o Dduw. Â'r syniad trwy lawer o gyfnewidiadau cyn y gellir cyrhaedd cyflawnder y gwirionedd am Dduw, ond y mae'r teimlad yna bob amser. Chwareuir deng mil o amrywiadau ar yr un testyn; ond clywir ef trwyddynt oll. "Nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd."†

Dyma, yn gyntaf oll, a wna y Beibl o werth tragwyddol—mae ganddo y teimlad o Dduw; apelia yn mhob man at galon ymgeisiol dyn, yr hon gyffroir hefyd gan y teimlad o Dduw. Gwn y dywedir wrthym nad yw hyn mwyach yn wir, ac fod dyn wedi gordyfu'r teimlad, y meddwl a'r angen am Dduw. Ond nid yw dweyd hyny yn ddigon ynddo'i hun i'w wneud yn wir. Mae yna ddynion yn ein plith yn y rhai y mae'r teimlad o Dduw wedi pylu ac yn aneglur—a gwn fod rhai o honynt yn ymchwilwyr diduedd a brwdfrydig am y gwirionedd. Ond ni chynrychiolant ond agwedd o fywyd bery am ychydig, rhediad tuag yn ol na ymyra ddim â'r ffrydlif nerthol. Dywedwch wrthyf am enwau dynion mawr o Agnosticiaid ac ereill na wyddant ddim am Dduw. Ond eto, os ydym i bwyso enwau yn erbyn enwau, b'le cawn dri o fwy o bwys na Darwin, Carlyle, a Tennyson? Os oedd gan y bedwaredd ganrif ar bymtheg unrhyw gewri meddyliol o gwbl, unrhyw brophwydi gwirionedd a doethineb, 'roedd y rhai hyn yn mhlith y blaenaf. "Nis gall un dyn," meddai Darwin, "aros yn y coedwigoedd trofanol (*tropical*) heb deimlo mai temlau yn llawn o gynyrchion amrywiol Duw natur ydynt, ac fod yna fwy mewn dyn nag anadl (neu fywyd) ei gorph." Gwrandewch ar Carlyle: "Nid yw'r bydysawd hardd hwn, hyd y nod yn ei dalaeth ddistadlaf, mewn gwirionedd ond dinas Duw gyda'i hwybren serenog, Trwy bob seren, trwy bob glaswelltyn, parha gogoniant Duw gwyddfodol ddisgleirio." A chana Tennyson mewn iaith mwy prydferth fyth—

Mae'r haul, mae y ser, mae y lleuad, y gwastad, y mynydd a'r môr,
Oll i ti yn hardd weledigaeth, fy enaid o fawredd ein Ior!
Llefara di wrtho, mae'n gwrando, can's yspryd at yspryd a ddaw,
A nes yw Efe nag anadlu, agosach na llygad na llaw.

Yn ail, sylwch fel y rhed y meddylddrych o gyfiawnder trwy y Beibl, gan uno ei holl ranau wrth eu gilydd, fel pe tae â doleni un gadwen fawr. "*Gwneuthur barn a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw,*"‡ yw ei addysg fawr ymarferol. "*Canys yr Arglwydd a gar farn*"§ "*Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd; a'th allor, O Ar-*

* Ioan x. 30. † Salm lxxiii. 26. ‡ Michah vi. 8. § Salm xxxvii. 28.

glwydd, a amgylchynaf."* Crefydd o "*berffeithrwydd calon a glendid dwylaw*"† yw crefydd Abram, fel y dywed y brenin Abimelech. Nid dysgawdwr duwinyddol yw Moses; arweinydd politicaidd a diwygiwr moesol yw. Sefydlodd y deg gorchymyn y ffaith gyda llais awdurdodedig unwaith ac am byth mai trefn foesol a iawnder sydd benaf. Nid oedd eneidiau mawr Groeg a Rhufain yn brin o syniadau arddderchog am ddyledswydd; ac eto, fel mae wedi cael ei ddweyd yn bert iawn, "Ni ysgrifenodd un deddfroddwr Rhufeinig ar ddechreu ei gyfraith y gorchymyn aruchel, '*Byddwch sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi, yr Arglwydd eich Duw chwi.*"‡ Dynoethir gweithredoedd anfoesol yn Athen yn ogystal ag yn Rhufain, ond nid oes neb yno i ysgrifenu y drydedd Salm ar ddeg a deugain. Sieryd Plato eiriau llawn mor aruchel am gyfiawnder ag a wna Esaiah, ond ni chant unrhyw adsain yn nghalonau'r bobl. Gogoniant Israel oedd fod y genedl fel cyfangorph yn mabwysiadu addysg y Prophwydi fel ei safon. Er i'r bobl yma lithro ganwaith, eto yr oedd ganddynt yr athrylith a'r ddawn at gyfiawnder. Nid dywediad i athronwyr dyrchafedig, ond ar gyfer bywyd cyffredin oedd, "*Llawen gan y cyfiawn wneuthur barn*"§—dywediad a glywid bob Sabbath yn synagog pob pentref. Lle bynag y cwyd prophwyd ei lais, dyma yw baich ei genadwri, "*Peidiwch a gwneuthur drwg; dysgwch wneuthur daioni,*"‖ ac er fod yr Iddewon yn ngraddau cyntaf eu dadblygiad crefyddol wedi dysgu llawer o bethau gwerthfawr oddiwrth y gwersi darluniadol hyny, y defodau a'r seremoniau sefydlwyd gan Moses, eto pa ffrydiau o ddirmyg bywlosg dywalltodd y Prophwydi arnynt pan y daethpwyd i feddwl mai hwy, yn hytrach na chyfiawnder a thrugaredd, oedd gwir aberth Duw! Edrychir ar holl hanes yn ngoleuni iawnder a threfn foesol. Dangosir i ni deyrnasoedd mawrion anghyfiawn yr hen fyd yn hongian ar fin cwympo oherwydd eu gormes, eu creulondeb a'u drwg weithredoedd; dangosir i ni fel y daw dydd barn o'r diwedd i bob trawster o dan haul, fel y mae pobpeth yn foesol, ac fel y mae yna dueddiad a gogwydd ddiysgog yn natur ac yn hanes dyn yn gwneud am gyfiawnder.

Una'r agwedd ddiddarfod yma o'r Beibl, yr hon sydd ar adegau yn amlwg ac ar adegau eraill o dan gwmwl am ryw ychydig, una ei wahanol awduron a'i lyfrau mewn un gogoniant a mawredd. Cynydda'r teimlad o gyfiawnder, fynega ei hun ar y dechreu yn amherffaith iawn, gyda thyfiant y genedl, nes y cyrhaedda ei berffeithiad yn Nghrist, yr hwn yn ei berson ei hun a'i addysg ddyga dystiolaeth anfarwol i'r gwirionedd mai gwneuthur daioni yw dechreu a diwedd pob crefydd, a dirgelwch llawenydd a heddwch. "*Nid pob un ar sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.*"¶ Moesol yw'r oll. Dyma yw porth hyd y nod y dirgeledigaethau uwchaf a'r weledigaeth

* Salm xxvi. 6. † Genesis xx. 5. ‡ Lefiticus xix. 2. § Diar. xxi. 15.
‖ Esaiah i. 16—17. ¶ Matthew vii. 21.

wynfydig ei hun, "*Gwyn eu byd y rhai pur o galon canys hwy a welant Dduw*"* Newynu a sychedu am gyfiawnder yw'r unig lwybr i wynfyd.

Y syniadau hyn am Dduw a Chyfiawnder yw syniadau gwahaniaethol crefydd y Beibl, fel ag y maent y syniadau unant ei ranau gwahanedig. Gwerth mawr y Beibl yw bywhau a chryfhau ffydd yn Nuw a Chyfiawnder, ac adfywio ynom yr ymwybodolrwydd o'u sylweddoldeb. Canys y maent yn ddisglaer a thanbaid yn y Beibl, fel nas gall neb fethu eu teimlo na gweled beth feddyliant. Yr ydym yn olrhain eu tyfiant ar ei dudalenau ; ac yn ein hwyliau goreu teimlwn ein hunain yn ymatebol iddynt, am y llefarwyd hwy nid yn unig yn yr hen amser gan ddynion sanctaidd, ond am y sybridir hwy i'n clustiau ni gan yspryd y Duw byw.

*Matthew v. 8.

CRI'R AFRADLON.

O'R dyfnder y llefaf hyd atat fy Nuw ;
O'th flaen yr ymbiliaf, O gad imi fyw ;
Anfeidrol drysorau dy ras sy'n ddi ri'
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Myfi wyf afradlon, gresynus a thlawd,
I'r nef yn anffyddlon, i'r ddaear yn wawd ;
O maddeu gamweddau pechadur fel fi,—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Ar hyspell y crwydrais i gyrau y byd,
Dilynodd hyfrydlais efengyl o hyd ;
Felused ei nodau, mae groesaw i mi,—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Er tloted ; dychwelaf yn ol tua'm gwlad ;
Er gwaned, mi godaf ac af at fy Nhad,
O'i fynwes rhed ffrydiau tosturi yn lli,—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Wrth ddôr dy drugaredd, 'rwy'n curo, fy Naf,
Gwn heb dy ymgeledd, mai marw a wnaf ;
Fy nghalon, â'th wenau adfywia fy Rhi—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Yr Arglwydd tosturiol a glybu fy llef,
Troes cri'r edifeiriol yn gân yn y nef :
Cydchwery telynau gogoniant mewn bri—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt Ti !

Y PARCHEDIG T. J. PRITCHARD,
Llywydd Cymdeithas y Wesleyaid 1912—1913.

DUW EIN TAD.

[Pregeth a draddodwyd yn Nghyfarfod Chwarterol Cymdeithas Undodiaid Deheubarth Cymru, yn Nghaeronen, dydd Iau, Mawrth 21ain, gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.]

"*Phylip a ddywedodd wrtho: Dangos i ni y Tad a digon yw i ni.*"
—IOAN XIV. 8.

[PARHAD].

SYNIAD UWCHAF CREFYDD

yw fod Duw yn Dad pob dyn. "Mi a'ch derbyniaf chwi, ac a fyddaf yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd."—Esaiah 63 : 6. "Y sawl a arweinir gan yspryd Duw, y rhai hyny sy' blant i Dduw," meddai Paul. Y mae y syniad fod Duw yn Dad wedi dyfod i aros.

Bychan o beth mewn ymddangosiad oedd i'r plentyn bach diofal ysgrifenu yn y tywod ar y traeth, y geiriau—Duw, cariad yw. Gyda'r lianw cyntaf cawsant eu dileu bob llythyren. Bychan o beth yn gyffelyb yw, pan fo'r geiriau yn cael eu llefaru. Ni adawant un argraff ar yr awyr ag y gellir ei olrhain, eto cyrchant rhag eu blaen yn ddisylw ar eu taith anweledig. Pa le y maent yn awr? Beth ydynt yn awr? A ydyw'r môr a'r awyr wedi llyncu gwirionedd anmhrisiadwy y llythyrenau hyn? Na, na! Er eu gollwng allan i'r awyr, a'u llyncu gan y dyfnder, nis gellir byth mwy ddileu geiriau y memrwn cysegredig—"Duw, cariad yw."

Nis ganwyd y gwirionedd mawr hwn yn ymhenydd trallodedig y ddynoliaeth, ac nid i farwolion yn unig y rhoddwyd ef. Tarawyd tinc melusber y tant mawreddog gyntaf gan Dduw ei Hun yn y nefoedd, a ffurfia heddyw y drum, y *coping* uwchaf ar deml meddyliaeth grefyddol. Heb y syniad fod Duw yn Dad, ni fyddai athroniaeth crefydd ond megys *broken column*, rhywbeth amherffaith ac anghyflawn; gyda'r syniad, cawn eglurhad ar lawer pwnc a fyddai heb hyny yn ddirgelwch annirnadwy. Hwn ydyw syniad mwyaf unoliaethol athroniaeth, mwyaf cynwysfawr, a mwyaf cysurlawn crefydd. Gwna'r plentyn yn ddiofn hyderu ac ymddiried yn ei dad daearol, oni allwn ninau ymddiried yn y Tad Nefol, yn yr Hwn y mae holl rinweddau y rhieni goreu yn cydgwrdd, ac yn anfeidrol mwy perffaith!

Y mae'r Tad Nefol yn anherfynol yn ei gariad, fel y mae'n rhaid iddo ewyllysio y goreu ar ran pawb o'i blant; yn ddigamsynied yn ei ddoethineb, fel y mae'n rhaid iddo ddewis y goreu; yn anfeidrol yn ei allu, fel y mae'n rhaid iddo ddwyn ei ewyllys i weithrediad.—Duw, cariad yw; ein Tad yw!

Cawn y delfryd goreu o lywodraeth dda, yn y teulu. Nid oes lle arall fel cartref. Byddai

CARTREF PERFFAITH

yn nefoedd ar y ddaear. Ei rwymyn ydyw cariad, gan mai cariad yw y prif ddylanwad sydd yn ffynu cydrhwng yr holl aelodau. Y mae'r plentyn yn ddiogel o dan ofal amddiffynol y tad, yr hwn sydd yn gwylied, yn gofalu, yn rhagddarbod.

Heaven lies about us in our infancy. Gorwedda'r nef o'n amgylch pan yn blant. Y Tad yw ein amddiffynydd, ac ni rydd hûn i'w amrantau nes gweled ei rai bychain mewn gorphwysfa ddiogel. A pha beth bynag yw tad daearol, daionus, hyny a rhagor yw y Tad Nefol. Deuwn i'r byd yn anwybodus, a danfonir ni i'r ysgol. Mewn ystyr yr ydym yma ar brawf, a chenym bob cyfleusdra i dyfu mewn gwybodaeth ac mewn gras. Gwrteithiwn ein meddyliau, goleuwn ein deall, purwn ein serch, bywiocawn ein cydwybod. Os esgeuluswn ein cyfleusderau, cawn fod dysgyblaeth lem yn ein haros. Yr un Beibl ag sy'n dywedyd, "Duw, cariad yw," a ddywed hefyd yn eithaf gwir, "Oblegid ein Duw ni sydd dân ysol." "Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." Nid yw yn perthyn i natur nac i ras i ffafrio'r nambi-pambiaeth sydd yn arbed y wialen ac yn spwylo'r plentyn. Bydd i bob pechod ei ganlyniadau naturiol. Ond y mae Duw hefyd yn drugarog ac yn raslawn, yn hwyrfrydig i ddig ac yn aml o drugaredd a gwirionedd. Ni thry Efe y clust byddar at gwynion ei blant. Y mae Efe yn wrandawr gweddi—

Ti yr Hwn wrandewi weddi
Atat Ti y daw pob cnawd.

Yn ei ffordd ei hun ac yn ei amser ei hun, y mae yn ateb yn unol a'i ddoethineb a'i gariad anfeidrol. Y mae hefyd yn darparu etifeddiaeth i'w blant. Nid ydym ni yma ond dyfodiaid a phererinion; y mae ein cartref yn y nef.—Yn nhy ein Tad y mae llawer o drigfanau. Ar hyd y llinellau hyn, y mae gobeithion uwchaf a dyheadau dyfnaf dynoliaeth yn rhedeg. Dyma lwybr tyfiant moesol. Yma y mae prif ffordd llwyddiant a llawenydd—sydd yn llewyrchu fwy fwy hyd at y perffaith ddydd.

Maddeuer i ni air eto

AR BWNC YMDDADBLYGIAD.

Y mae'r athrawiaeth hono yn rhyw ffurf o honi wedi dyfod i aros; a dywed y diweddar John Fiske, Darwiniad enwocaf yr Amerig, mai y wers bwysicaf a ddysgir ganddi yw, mai nod ei hymgyfeiriad o'r cychwyn yw dyn—y dadblygiad graddol wedi cymeryd lle, nid dan wasgfa amgylchiadau damweiniol a dall, na than ddylanwad *Rhaid*, fel cynyrch *matter and motion** yn unig, eithr o dan ddylanwad y Meddwl dwyfol,—o'r da i'r gwell o hyd, nes cyrhaedd safle uchel dyn, ie, dyn byth mwy—coron y cread—dyn ar y ddaear, dyn yn y nefoedd hefyd, eithr nid dyn perffaith eto, ond dyn ar ei daith. Drwy ganrifoedd yr oesau y mae'r Ymddadblygiad hwn yn parhau i fyned yn ei flaen, a llawer dyn da, llawer proffwyd, llawer apostol, yn codi i ddal i fyny yn ngwydd y byd faner a mynegfys i gyfeirio cerddediad y pererinion. Ac wele o'r diwedd, yn nghyflawnder yr amser, Un wedi dod sydd yn fwy na holl obeithion goreu *y Genedl* — yr Anwyl Fab, y Dyn Perffaith, y Delfryd Dwyfol, yn yr hwn y mae môr mawr ysbrydolrwydd y Tad goreu yn cyrhaedd ei lanw uwchaf,—pob tinc anghydgord wedi ei ddistewi ynddo ef am byth, y dynol wedi ei lwyr drwytho â'r dwyfol, a'r ddau bellach mewn perffaith gydgordiad.

Ac Efe bellach yw

NOD YR YMGYFEIRIAD

i'r ddynoliaeth. Onid hyn a feddylir wrth yr Ymgnawdoliad? Aeth y Logos (y Gair) yn Iesu, yn ymgnawdoliad o holl briodoleddau moesol ac ysprydol y Bod Mawr. A'r Gair a ddaeth yn gnawd. Onid rhywbeth tebyg yw meddwl Paul yn y geiriau—"Oblegid ynddo ef y mae

* Tair "M" y Sais yw *Matter* and *Motion*, and *Mind*. Ni ellir dychmygu Trefn heb *Mind*, heb y *Meddwl*.

holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol!" Ac onid trwy ddilyn yr un llwybr y teithiodd Iesu ar hyd-ddo, a meithrin yr un yspryd a'r un anian, y gallwn ninau obeithio cyrhaedd yr un nod—cael ein cyflawni a holl gyflawnder Duw! —Col. ii. 9; Eph. iii. 9.

"Dangos i ni y Tad," meddai Phylip. "Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad," meddai Iesu—nid yn llythyrenol feallai, nid yn bersonol, ond yn ddeallol, yn ysprydol. Yn Iesu fe welid yr oll o Dduw a ellid ei weled mewn cnawd. Efe oedd yr amlygiad puraf, dysgleiriaf, a hawddgaraf, o'r Tad anfeidrol a thragwyddol. Ei fywyd ef, ei weinidogaeth ef, ei grefydd ef, a roddant i ni

Yr Olwg Fwyaf Boddhaol

ar Lywodraeth Dadol Duw, ac ar ei Ragluniaeth a'i ras; ac am hyny yr ydym yn darllen, "Ni ddichon neb ddyfod at y Tad ond trwof fi." Un llwybr sydd yn arwain i'r nefoedd, sef y llwybr yr aeth Iesu ar hyd-ddo, llwybr dyledswydd, llwybr rhinwedd, a phurdeb a sancteiddrwydd, llwybr hunan-ymwadiad ac hunan-aberth, ac ar hyd y llwybr hwnw y mae'n rhaid i bob un a ewyllysio fod yn ddiogel ac yn berffaith hefyd ddilyn.

"Digon," meddai Phylip, a digon ddywedem ninau hefyd, pe gallem ddim ond sylweddoli symlrwydd gogoniant crefydd Iesu Grist. Nid oes un arall a ddichon foddhau i'r fath raddau angenion dyfnaf enaid dyn.

Fe Ddealla Plentyn

ystyr y gair Tad, a theimla ei ddarbwylliad melus i dawelwch a gorffwysdra. Fe deimla *ieuenctyd* ei ddylanwad nerthol, a chymerant eu harwain ganddo; a *chanol oed*, pan y gallant dori yn rhydd oddiwrth hualau caethiwus bydolrwydd, a gant ynddo ysprydiaeth i fywyd uwch a gwell; a *henaint*, tra'n ymsymud ar draed blinion a sigledig tuag at y terfyn mawr, a allant gael yma y fath nerth a chynaliaeth na chant yn un man arall; a'r *galon* a rwygir gan bryder a gofal y byd all gael yma brawf o'r tangnefedd hwnw na phrofwyd ganddo erioed o'r blaen; a'r *pechadur*, ie, gall y pechadur hefyd obeithio. Yn un o'r newyddiaduron yn ddiweddar crybwyllwyd am ferch ieuanc yn ei hynfydrwydd meddw, yn llefain allan ar y stryd, nad oedd gan grefydd raff ddigon hir i achub pechadur o'r fath ag oedd hi. Ofnwn fod llawer yn rhy debyg, ac nad ydynt yn gwneuthur fawr ymdrech i ddianc o'u cyflwr gresynus.

Tybiwn mai yr unig raff a achuba bechadur yw rhaff o edifeirwch a diwygiad, ac y mae yn rhaid i'r pechadur ei hunan yn rhywfodd gael gafael yn y rhaff hono. Ni wnaiff Duw achub dyn yn groes i'w ewyllys, neu tra fyddo â'i holl fryd ar ddilyn ei bechod. Rhaid i'r pechadur gael ei achub oddiwrth ei bechod ac nid yn ei bechod. "Gadawed y drygionus ei ffordd" yw geiriau Esaiah, "a'r Arglwydd a gymer drugaredd arno." Dyna lwybr iachawdwriaeth. Dyna'r llwybr y manteisiodd y Mab Afradlon arno, pan aeth gwasgfa amgylchiadau yn rhy drwm, a rhy annioddefol iddo. Cymered y pechadur ynte galon, ni cheuir drws trugaredd heb adael y *Knocker* ar ddrws y ffrynt; ac y

Mae'r Tad Goreu

gyda rhyw gariad angerddol o hyd, yn dysgwyl, yn dysgwyl, nes delo'r olaf o'r crwydriaid adref. Rhodded unwaith eto gan hyny, ystyriaeth briodol i swynion hudolus y gair Cartref—cartref nefol yn awr, fe ddichon, lle mae ysprydoedd y cyfiawnion wedi eu perffeithio—ei dad, ei fam feallai, neu gâr anwyl, yn barod i weini arno, ac i roddi groesawiad siriol iddo. Gallwn obeithio i ystyriaeth ddifrifol o hyn oll, os gwnaiff dim, gynyrchu y fath wrthdro (revulsion) yn ei deimladau, a dwyn y fath dristwch ac edifeirwch i'w galon, ag i'w arwain yn y diwedd i ddiwygiad bywyd a glendid

buchedd, gan beri i glychau'r nefoedd ganu! Onid gwir geiriau Tennyson?:

Yn ddall ni rodia dim ei daith,
Ni chollir dim un bywyd byth,
Ni theflir dim i ddamniol nyth
Pan ddygo Duw i ben ei waith!

Fe ddichon i bob math a chyflwr o ddynion gael yma, os mynant, y feddyginiaeth a'u cynorthwyant yn oreu i ymddâl dan holl groesau chwerwon bywyd.

A chenym gred mewn Duw sydd yn Dad i ni, eangwn ein ffydd ynddo, cryfhawn ein gobaith ynddo, dyfnhawn ein cariad tuag ato, a chawn deimlo ein hunain o'r diwedd yn cael ein cofleidio o fewn breichiau gwresog crefydd, a ddesgrifir gan y bardd fel un sydd—

Mor uchel ag yw cariad Duw
Mor eang ag yw angen dyn.

TOLSTOY.

[PARHAD O RIFYN EBRILL].

Yn awr penderfynodd gadw ysgol yn y wlad, i ddysgu plant y werin anwybodus yn ol deddfau'r Bregeth ar y Mynydd ac egwyddorion addysgianol Jean Jacques Rousseau. Fel Rousseau, credai Tolstoy y dylai plentyn gael ei addysgu yn ol rheolau natur; maentumiai fod gan fechgyn a merched ieuainc awydd gynhenid am fathau ar wybodaeth; ac mai dyledswydd yr athraw ydyw cyfranu iddynt y wybodaeth hono. Ond ar y plentyn mae gofyn am faeth meddyliol; os nad arddengys archwaeth barod ac iachus at ei ymborth meddyliol, ni wiw ei orfodi i gymeryd lluniaeth yn erbyn ei anian; yn wir, ffolineb yw ceisio creu ynddo archwaeth at wybodaeth, oblegid ni fedr wneud defnydd o ragor na'r hyn all ei feddwl dderbyn yn naturiol.

DIM RHEOL A DIM COSP,

a dim disgyblaeth o un math, dyna ei reol fel athraw.

Gwnaeth lawer o ddefnydd o'r Beibl; ac yr oedd yn gredwr cryf mewn gadael i'r plant ddarllen, neu wrando darllen, hanesion yr Hen Destament—fel yr ysgrifenwyd hwy yn y gyfrol sanctaidd, heb adael allan ddim. Gan mai llenyddiaeth cenedl ieuanc yw'r Beibl, credai ei bod yn neillduol addas i'r meddwl ieuanc yn mhob oes.

Ni pharhaodd Tolstoy'n hir gyda'i arbrofion fel ysgolfeistr; felly anhêg pasio dedfryd ar ei waith. Ond addef ei hun ei fod wedi gogwyddo rhyw gymaint at y drefn gyffredin o gadw ysgol, ac y mae'n amheus a gredai yn y diwedd mai ei gynllun ef oedd y goreu i ymdrin â'r barbariaid bychain a drigent yn y wlad o gylch Yasnaya Polyana.

Eto i gyd, mae llawer i'w ddweyd dros syniadau Tolstoy am gadw ysgol; ac y mae tuedd gref yn ysgolion y dyddiau hyn, yn mhob gwlad wareiddiedig, i roddi mwy o chwareu teg i dueddiadau naturiol plentyn. Mae oes y wialen ar ddarfod, a thymor y pastwn bron ar ben.

Rhodd afiechyd derfyn ar ei yrfa athrawol. Yn wir, ofnid ar y cyntaf

ei fod ar syrthio yn aberth i'r ddarfodedigaeth, fel y gwnaeth ei ddau frawd o'i flaen. Ond cyn hir concrodd ei nerth rhyfeddol y llesgedd, ac adenillodd ei iechyd eto.

Yn 1862, pan yn 34 oed, ymbriododd â Miss Sonia Behrs, merch i feddyg Ellmynaidd, geneth ddeunaw oed. Cyfnewidiodd ei briodas gwrs ei fywyd am yspaid hir. Ymrôdd i waith llenyddol am flynyddau, tyfodd teulu lluosog o'i gylch, daeth yn y blaen mewn ystyr fydol, a bu ei alluoedd meddyliol dihafal ar waith yn cynyrchu ei gampweithiau, y mwyaf nodedig o'r rhai oeddynt y nofelau "Heddwch a Rhyfel," ac "Anna Karenina," llyfrau

SYNASANT Y BYD GWAREIDDIEDIG.

Cynwys y cyntaf o'r nofelau hyn rhyw gant o gymeriadau gwahanol. Sylfeinir hi ar ymdaith Napoleon i Rwssia yn 1812, a desgrifia'r gwrthgiliad ofnadwy o Foscow, pan y rhoddwyd eu prif-ddinas ar dân gan ei hamddiffynwyr, yn hytrach na'i gollwng yn aberth i wanc yr archelyn o Ffrainc.

Mae hwn yn un o'r llyfrau mwyaf nerthol a ysgrifenwyd erioed; cynwys wybodaeth, dychymyg a gallu desgrifiadol, yn nghyd a dealltwriaeth ddofn o'r natur ddynol, sydd ar unwaith yn codi Tolstoy o'i ysgwyddau'n uwch na mwyafrif awduron ei oes. Fel y rhan fwyaf o lyfrau mawr, y mae yn rhanol yn hunan-fywgraffyddol, ac ynddo cawn syniadau eglur yr awdwr ar gymdeithas a chrefydd; a dengys yn amlwg ei gasineb at fawrion y gwledydd, a'i

GYDYMDEIMLAD A'R ISEL EU STAD.

Ond er cystal gwaith yw "Heddwch a Rhyfel," cwyd Tolstoy i dir uwch eto yn "Anna Karenina." Dywed Mathew Arnold fod y nofel hon yn nodi cyfnod newydd mewn llenyddiaeth; nid celfyddyd ydyw yn gymaint a bywyd. Torodd ymaith oddiwrth gadwynau traddodiadau llenyddol, a phortreadodd fywyd fel y gwelodd ef, yn ei holl brydferthwch a'i hyllder.

Darlunia draserch anobeithiol gwraig briod yn byw yn nghylchoedd uchaf Moscow a St. Petersburg; ac erys Anna Karenina gyda'r mwyaf alaethus yn mysg arwresau llenyddiaeth. Abertha y cwbl—golud, sefyllfa, ei phlentyn, ie, ei bywyd ei hunan ar allor ei serch. Ac nis medr yr un galon ddynol beidio cydymdeimlo â hi.

Tolstoy ei hun, mae'n amlwg, yw Levin, arwr y chwedl, ac yn ei hanes gwelwn ddarlun enaid yr awdwr yn eglur, fel mewn drych llyfn a gloew. Gwelwn ei syniadau'n ymffurfio ynddo; ei gariad at y tlawd; ei adgasrwydd at bob math o lywodraeth; ei edmygedd o athrawiaethau llythyrenol y Bregeth ar y Mynydd.

Wrth yr hyn allwn gasglu yn y nofel hon, mae'n amlwg na fu bywyd priodasol Tolstoy y cwbl y dymunai iddo fod. Gosododd ei fuchedd foreuol ei ystaen ar yr oll o'i ddyfodol; hauodd efrau yn ei ieuenctyd, ac amharodd y rhain lawer ar wynder meusydd ei fywyd i ddod. Ni ddaeth merch erioed yn beth hollol gysegredig yn ei olwg; ac eglura hyn lawer ar ei anedwyddwch teuluaidd.

Yn union wedi cyhoeddi ei lyfr enwocaf, aeth y newydd dros y byd am *droedigaeth* yr awdwr. Cyffyrddasai gras â'i galon, a mynegodd i'r gwledydd ei fod wedi penderfynu nad ysgrifenai ddim mwyach.

Drosodd a throsodd yn ystod ei fywyd, cyn yr amgylchiad hwn, yr oedd wedi dioddef dan guriadau cydwybod; dilynasai adegau o wae ac edifeirwch ei dymhorau o lawenydd a melus-chwantau. Fwy nag unwaith bu ar ddibyn hunan-laddiad. Bu yn galed

CHWILIO AM WIR YSTYR BYWYD.

Meddianwyd ef gan ofn marwolaeth yn fwy nag erioed. Buasai yn efrydydd cyson o Schopenhauer, y gwaethafwr, a dysgodd gan hwnw efengyl ddu anobaith. Crogai arswyd yr

anhyspys beunydd uwch ei ben ; ac aeth y byd bron yn anioddefol iddo. Fel y dywed yn ei gyffesiad : "Nid yw'm bywyd ond rhyw gellwair diystyr ; mae rhywun wedi chwareu castiau echrys arnaf." A dyfyna yr hanesyn Dwyreiniol a ganlyn :—

"Yr oedd teithiwr unwaith yn cael ei ymlid gan fwystfil rheibus. I ddianc rhagddo, neidiodd i bydew sych ; ond ar waelod y pydew gwelai ddraig enfawr yn agor ei safn ddaneddog i'w lyncu.

Nid gwiw ceisio dianc allan, mae'r bwystfil yn ei aros ; ac ofer disgyn yn îs, mae'r ddraig ofnadwy yn ei ddisgwyl. Gan hyny nid oes ganddo ddim i'w wneud ond gafael mewn cangen yn tyfu allan o agen yn y pydew, a glynu wrthi cyhyd ag y gallo. Mae ei ddwylaw yn gwanhau ; a theimla nad oes ond distryw yn ei aros, oddi-uchod neu oddi-dano ; ond deil i lynu wrth y gangen. A gwêl ddwy lygoden, un yn wèn a'r llall yn ddu, yn myned yn rheolaidd o gylch bôn y gangen, a'i graddol gnoi ymaith ; a gwêl mai syrthio i'r gwaelod yn fuan fydd ei ran. Ac wrth edrych o'i amgylch, gwêl ddyferion o fêl ar ddail y gangen, ac estyn ei dafod allan i'w llyfu.

Felly myfinau, yr wyf yn glynu wrth gangen bywyd, gan wybod fod draig marwolaeth yn fy nisgwyl, yn barod i'm llarpio'n ddarnau.

Nis gallwn ddirnad paham y syrthiaswn i gymaint trallod enaid. Ceisiwn lyfu'r mêl a'm cysurai gynt ; ond nid oedd mwyach yn felus i'm genau ; ac yr oedd llygod du a gwyn nos a dydd yn cnoi wrth fôn y gangen yr hongiwn wrthi. Gwelwn y ddraig yn eglur, a chollodd y mêl ei flâs. Ac nid chwedl mo hon, ond y gwir anatebadwy, o fewn deall pob un. Nid oedd y ddau ddyferyn mêl a gadwodd fy llygaid cyhyd rhag gweled y gwirionedd creulon, fy nghariad at fy nheulu, a'm serch at ysgrifenu — Celfyddyd fel y galwn hi—mwyach yn meddu'r un melusder imi."

Ond torodd gwawr yn raddol ar ei feddwl ; gwelai fod

Y GWLADWYR SYML

a drigianent o'i gylch yn byw yn gymharol hapus ; nid oedd eu hangenion yn fawr ; yr oedd eu pleserau'n syml ; yr oeddynt yn byw i'w gilydd i raddau helaeth ; gweithient yn galed er mwyn eu teuluoedd, ac anghofient lawer o ofidiau'r gwr segur. A throdd ei feddwl eto at y Bregeth ar y Mynydd. Darllenodd yn ddyfal y Gyfrol Santaidd, ac astudiodd Roeg ac Hebraeg, fel y gallai ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol. Yn 1884 cyhoeddodd hanes ei droedigaeth grefyddol o dan y penawd, "Fy Nghrefydd," yn yr hon gyfrol gosododd allan gyda manylder y rhesymau a'i harweiniodd i gredu ddarfod i Iesu feddwl mewn gwirionedd i'r Bregeth ar y Mynydd gael ei chymeryd fel pregeth ymarferol ; ac y golygai i'w ganlynwyr i'w byw allan i'r llythyren ; ac wrth ei byw, yn ol Tolstoy, y daw gwir ddedwyddwch, yr unig hapusrwydd dwfn a pharhaus. Uwchlaw dim, rhydd bwys arbenig ar y gorchymyn,

"NA WRTHWYNEBWCH DDRWG" ;

ac o'r gorchymyn hwn y tyn ei egwyddorion gwrth-lywodraethol. Yn ol y rhain y mae pob ffurf o lywodraeth o'r drwg ; a milwriaeth o bob math yn drosedd yn erbyn dyn a Duw.

Ond, medd rhywun, mae troi'r rudd arall yn groes i natur. Ac etyb Tolstoy fel hyn :—

"Gadewch i ni beidio haeru fod trefniadau ymosodol, a ddefnyddiwn er ein budd ein hunain, yn ddeddf ddwyfol ac anghyfnewidiol — a gwelwn yn eglur yr hyn sydd fwyaf mewn cydgord â'r natur ddynol—ai deddf ymosodol neu ddeddf Iesu.

Beth yw deddf natur ? Ai gwybod y prynir fy nirgelwch i a'm teulu, fy holl ddifyrwch a'm pleserau, ar gost trueni, ddioddef, ac angeu miloedd o fodau dynol,—drwy ofn y crogbren ; drwy garchariad miloedd ; gan y braw gynyrchir gan filiynau o filwyr a gwarcheidwaid gwareiddiad ; wedi eu troi ymaith o'u cartrefi ; wedi eu dirywio gan ddisgyblaeth filwrol, i

amddiffyn ein buddianau â llawddrylliau llwythog rhag posibilrwydd ymyraeth y newynog? Ai prynu pob tamaid o fara a rof yn fy ngenau ac yn ngeneuau fy mhlant ar gost yr angenion dirif a ddioddefir er mwyn i mi fyw mewn llawnder? Neu ai bod yn sicr na pherthyn yr un tamaid o fara i mi ond pan fyddo pawb eraill wedi cael cyfran; ac nad oes neb yn newynu tra fyddwyf fi yn bwyta?"

Yn ol Tolstoy, y canlyn, yn eu symlrwydd, yw pum gorchymyn Iesu yn ei Bregeth ar y Mynydd:—

1. Na ddwg ddigofaint.
2. Na chyflawna odineb.
3. Na thwng anudon.
4. Na wrthwyneba ddrwg.
5. Na wna ryfel.

O hyn allan gwnaeth ei oreu i gario allan yr egwyddorion hyn yn ei fywyd beunyddiol. Rhodd i fyny ei holl eiddo; er mai ei roddi ar enw ei wraig a wnaeth. Treuliodd ei amser yn gweithio fel llafurwr cyffredin yn ei feusydd; a throdd hyd yn oed i gyweirio ei esgidiau ei hun. Ni ysgrifenodd nofelau mwyach, ond cyfansoddodd ystorïau o duedd foesol a chrefyddol er derchafiad y werin anwybodus o'i gylch. Taranodd yn erbyn rhyfel; a phan wnaeth yn nghanol berw'r rhyfel rhwng Rwssia a Japan nis beiddiodd awdurdodau yr ymerodraeth gyffwrdd âg ef—gymaint oedd ei ddylanwad ar bobl y wlad.

Lawer gwaith bwriadodd ddianc o fynwes ei deulu, gan ei fod yn teimlo nad oedd yn byw yn ol ei egwyddorion drwy fwyta wrth fwrdd ei wraig, yr hon oedd yn mwynhau ei chyfoeth ar draul angen miloedd o wladwyr o'i hamgylch.

Yr oedd yn 80 oed pan gafodd ddigon o wroldeb i ffoi; a phan aeth, ni ddychwelodd mwyach; bu farw ar ochr y ffordd; cofia pawb yr amgylchiad.

Nid wyf ond wedi rhoddi braslun brysiog o fywyd

Y Prophwyd o Rwssia;

os try'r tudalenau hyn sylw neb at ei lyfrau am y tro cyntaf bydd yn ddigon tâl am eu hysgrifenu. Llef un yn llefain yn niffaethwch y dyddiau diweddaf hyn oedd llais Tolstoy—yn erbyn trais, a gormes, a materoldeb; i alw sylw cenhedlaeth hunangeisiol, trofäus, a moethus at fywyd pur a santaidd y Saer syml o Nazareth.

S.

UNDODIAETH YN NEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliodd y Gymdeithas Undodaidd Dwyrein-Ddeheudir Cymru ei chyfarfod blynyddol yn nghapel Westgrove, Caerdydd ar y Llun, 29ain o Ebrill. Yn y gadair yr oedd Mrs. Reid, Abertawe (Llywydd y Gymdeithas). Gwelwyd hefyd yn bresenol yn mhlith eraill: Y Parchn. Proff. Moore, F. B. Mott, J. Glynne Davies, D. G. Rees, J. Carrara Davies, E. R. Dennis, George Neighbour, J. P. Kane, W. J. Phillips, Simon Jones, B.A., W. Parry, R. J. Jones, M.A., yn nghyd a chynrychiolaeth lawn o'n gwahanol eglwysi a'r ddau Ysgrifenydd—Mr. John Lewis a'r Parch. J. Park Davies.

Dangosai adroddiad y Pwyllgor fod

llawer o waith rhagorol wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a chyfeiriai at uniad yr eglwys flaenfynedol yn Mountain Ash â'r Gymdeithas fel digwyddiad gwir bleseraidd a gobeithiol.

Talodd y Parch. T. P. Spedding ymweliad arall yn ddiweddar â'r gymydogaeth fel cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, i'r hon yr ydym o dan gymaint o rwymedigaeth am ei chymorth haelionus estyna i ni o flwyddyn i flwyddyn. Ar wahan i'r fath garedigrwydd buasai yn anmhosibl i ni bron i gario'r gwaith yn mlaen. Dywedai'r adroddiad yn mhellach y priodoleddid y flwyddyn aeth heibio yn fwyaf neillduol gan gyffro cymdeithasol a masnachol yn hytrach nac ansefydlogrwydd crefyddol a duwinyddol. Mynwesir gobaith fodd bynag y gwelir dychweliad heddwch a chyd-ddealldwriaeth eto heb fod yn faith, ac ar yr un pryd rhagor o ddyddordeb yn y materion a berthynant i'r rhan uwchaf a phwysicaf o'n bywyd. Arwydd addewidiol arall o du crefydd rydd yw y symudiad sydd ar droed i ddadgysylltu yr Eglwys yn Nghymru. Fel Undodiaid nid oes genym ddim yn erbyn yr Eglwys fel sefydliad crefyddol. I'r gwrthwyneb amlyga tuag atom yn aml yspryd haelfrydedd a brawdgarwch ag y buasai o werth i Anghydffurfiaeth geisio ei efelychu. Ar yr un pryd methwn weled ei bod yn deg iddi gael ei gosod ar dir uwch nac eraill yn enwedig pan nad yw yn cynrychioli ond y lleiafrif yn unig. Credwn y bydd iddi ar ol ei rhyddhau oddiwrth y wladwriaeth ddyfod yn offeryn mwy effeithiol i wasgar purdeb a goleuni dros y Dywysogaeth yn gyffredinol. Yn yr yspryd hwn yn unig y dymunwn i'r mesur bob llwyddiant a hyrwyddiad buan. Edrychai'r adroddiad yn mlaen hefyd at ddyfodol y Gymdeithas yn llawn ffydd a gobaith. Y mae ei chyflwr heddyw yn fwy sicr a llewyrchus nag y bu unrhyw amser er pan y cafodd ei sefydlu 21 o flynyddau yn ol. Pe bae modd i'r diffyg arianol gael ei ddileu ac i'r derbyniadau gael eu cynyddu gellid ymgymeryd a llawer o waith sydd yn galw yn uchel am ei gyflawni. Dysgwylir i'r Van sydd i dalu ymeliad arall a ni yn yr haf i adfywio dyddordeb yn ein symudiad a'n cenadwri—y tu allan yn mhlith y cyhoedd ac yn yr eglwysi yn ogystal. Y mae achos newydd llewyrchus yn Maesteg yr hwn—er nad yw yn cael ei adwaen wrth yr enw Undodaidd—briodolir i fesur helaeth i'r gwaith da gafodd ei gyflawni gan y Van ar achlysur y ddau ymweliad dalodd a'r lle yn ystod y blynyddau aethant heibio.

Yn y prydnawn cynaliwyd Cynhadledd o dan lywyddiaeth Mr. John Lewis, Pontypridd, er mwyn dathlu unfed pen blwyddyn ar hugain y Gymdeithas. Cafwyd anerchiadau rhagorol gan Mrs. Reid, Abertawe; Mrs. Fox, Caerdydd; Mr. L. N. Williams, Y.H., Aberdar; a'r Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe ar "Orphenol, Presenol a Dyfodol y Gymdeithas." Yr oedd gan Mr. Williams hanes dyddorol i'w roddi am gychwyniad y symudiad a siaradai gydag awdurdod gan mai efe oedd Ysgrifenydd cyntaf y Gymdeithas. Enwau rhai o'r cynorthwywyr boreu eraill oeddynt y Parchn. W. A. Clarke, James A. Shaw, M.A., a Mr. C. H. Perkins, Y.H. (y Llywydd cyntaf). Ar ol i Mrs. Reid a Mrs. Fox ddweyd pethau calonogol ar gyflwr presenol y symudiad daeth y Parch. Simon Jones a'r newydd dymunol fod y swm o £500 benderfynwyd flwyddyn yn ol ei gasglu fel Cronfa er dathlu mewn modd anrhydeddus "dyfodiad i oedran" y Gymdeithas, wedi ei gyflawni. Estynir y diolchgarwch goreu i bawb wnaethant gynorthwyo i wneud y cynllun yn llwyddiant ac yn enwedig i Ysgrifenydd a Thrysorydd Pwyllgor y Gronfa—Parch. Simon Jones a Mr. Charles Edwards, Caerdydd.

Cafodd y canlynol eu dewis fel swyddogion am y flwyddyn bresenol: Llywydd, Mr. John Lewis, Pontypridd; Is-lywydd, Mrs. Reid, Abertawe; Trysorydd, Mr. E. D. Williams,

Aberdar; Ysgrifenydd, Parch. J. Park Davies; Ysgrifenydd Cynorthwyol, Parch. E. R. Dennis.

Pasiwyd yn unfrydol fod diolchgarwch goreu y Gymdeithas yn ddyledus i'r holl swyddogion am y flwyddyn flaenorol, ac yn enwedig i Mrs. Reid, y foneddiges gyntaf i lywyddu y Gymdeithas er pan y cafodd ei chychwyn. Darfu iddi gyflawni ei holl ddyledswyddau yn nglyn a'r gwaith yn ffyddlon ac yn fedrus. Pleser yw meddwl y cawn ei chadw fel Is-lywydd eto am y flwyddyn sydd yn dyfod. Pasiwyd fod y Pwyllgor yn y dyfodol i gael ei wneud i fyny o un cynrychiolydd o mewn cyfarfod o'r fath yn Nghymru. Hwn oedd y tro cyntaf iddo gael y cyfleusdra ond hyderai mai nid hwn fyddai y tro olaf.

Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o dan lywyddiaeth Mr. John Lewis. Y siaradwyr oeddynt Mr. D. Lleufer Thomas, Caerdydd, a'r Parch. D. Delta Evans, Llundain. Dywedodd y Cadeirydd mai arwydd gobeithiol iawn oedd gweled mewn pwlpud Undodaidd Drindodwr poblogaidd fel Mr. Lleufer Thomas. Traddododd yr olaf araeth bwrpasol ar berthynas y cwestiwn cymdeithasol i Undodiaeth. Dywedodd nad oedd yn ddieithr hollol i'r enwad,

MR. JOHN LEWIS, PONTYPRIDD.

bob cynulleidfa sydd yn gysylltiedig a'r Gymdeithas.

Gwnaeth Mr. John Lewis, fel Llywydd estyn croesaw cynes i'r Parch. D. Delta Evans (Golygydd y *Christian Life*), yr hwn, yn ychwanegol at fod yn bresenol ar gais y Gymdeithas, gynrychiolai y *B.& F. U. A.* Mewn atebiad dywedodd ei bod yn bleser mawr ganddo fod yn bresenol gan fod Mrs. Thomas yn hanu o deulu Undodaidd selog addolent yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Talodd derynged uchel i'r gwaith oedd Undodiaid wedi gyflawni mewn gwahanol gyfeiriadau yn y gorphenol. Yr oeddynt wedi gwynebu canlyniadau gwyddor a beirniadaeth mewn modd diysgog ac yn awr gwahoddai hwynt i wynebu y cwestiwn cymdeithasol yn yr un

yspryd. Siaradodd Mr. Evans ar y Ffydd Eangach a gwaith yr Eglwys. Swm a sylwedd ei genadwri oedd mai swyddogaeth yr Eglwys yw creu cymeriad fel y byddo yn lefeinio cymdeithas yn ei holl adranau.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y Parchn. George Neighbour a F. Mount Blott.

Gwnaeth y cyfeillion yn Caerdydd, drwy gymorth haelionus Mr. Woolcott Thompson barotoadau digonol ar gyfer angenrheidiau y dieithriaid a diolchwyd yn galonog iddynt am hyny. Felly dygwyd cyfres o gyfarfodydd llwyddianus iawn i derfyn dymunol.

J.P.D.

PRIODASAU.

EBRILL 6, yn nghapel y Graig, o flaen Mr. Noah L. Davies (y Cofrestrydd) a'r Parch. David G. Rees, y Gweinidog, unwyd mewn glân briodas, Mr. Jenkin Morgan, Trebanos, a Miss Mary Anne Davies, Brynamman.

MAI 25, yn nghapel y Graig, Llandyssul, gan y Gweinidog, Mr. David Jones, Cross Inn Farm, â Miss Anne Thomas, Glandwelyfach; y ddau o blwyf Llanfihangelararth. Hir oes a dedwyddwch a'u dilyno.

MARWGOFION.

MAWRTH 29, bu farw David Howell Thomas, 47, Mount Pleasant Street, Trecynon, Aberdar, yn 44 mlwydd oed. Dydd Mawrth, yr 2il o Ebrill, claddwyd yn nghladdfa gyhoeddus Aberdar, y Parch. J. Glynne Davies, Hen Dy Cwrdd, yn gwasanaethu.

EBRILL 4, yn 10 wythnos oed, Anne, merch David a Rachel Williams, Pantglas, Llanybyther. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. D. James (A.), Rhydybont, ac yn y fynwent gan y Parch. J. Davies.

EBRILL 19, yn 11 oed, bu farw Beatrice May, merch anwyl Mr. Arthur Edwards, 50, High Street (gynt Farmer's Arms), Cefncoed. Yr oedd yr eneth dlos wedi bod mewn nychdod blin er's amser maith, ond daeth y diwedd yn sydyn ac yn hollol anisgwyliadwy. Dydd Mercher dilynol claddwyd ei gweddillion yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Jacob Thomas (A.), Tabor; Parch. Sinclair Davies (A.), Adulam; a'r Parch. J. Davies, y Rheithor. Gadawodd mewn galar dwys ar ei

hol dad a mam, tri brawd, a thair chwaer, a llu o berthynasau eraill.

"Er colli yn niwloedd y glyn
Anwlyiaid o'r cwmni o hyd,
Llaw ddwyfol ail-asia'n fwy tyn,
Bob dolen o'r gadwyn i gyd."

EBRILL 22, wedi blynyddoedd o gystudd, a ddioddefwyd yn amyneddgar, John Davies, Abercwm, Llanllwni. Claddwyd ei weddillion marwol yn yr un bedd ag eiddo ei anwyl briod, yr hon oedd wedi ei ragflaenu er's yn agos i ddeuddeg mlynedd, yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur, yn y tŷ, gan y Parch. J. Davies; wrth y drws, gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac yn y capel gan y Parch. David Evans. Cawsai ei ddwyn i fyny yn ardal Rhydygwin, a'r amser cyntaf buasai yn mynychu'r addoliad yn Ysgoldy Ystrad yn amser gweinidogaeth y Parch. Rees Davies; ac ar ol hyny yn Rhydygwin o dan yr un weinidogaeth, tra y parhaodd; ac wedi hyny o dan weinidogaeth y Parch. William Rees. Yn y flwyddyn 1862, oherwydd fod y teulu'n cynyddu, a'r lle yr oedd ynddo'n gyfyng ac uchel, symudodd i Abercwm, ac ymaelododd ef a'i briod yn Alltyplacca, y pryd hwnw o dan weinidogaeth y Parch. David Evans. Yr oedd yn awr wedi bod yn agos i 48 o flynyddoedd o dan weinidogaeth amherffaith y gweinidog presenol, ac yn ddiacon yn yr eglwys bron o'r dechreu. Yn mhob un o'r cylchoedd hyn fe wnaeth ei ran yn anrhydeddus. Ac nid yn unig gydag achos crefydd y ceid ef yn gymwynaswr, ond yn mhob cylch arall yn ogystal. Yr oedd yn dad tyner, yn briod ffyddlon, ac yn gymydog o'r mwyaf parod i gynorthwyo yn mhob cyfyngder. A gwnai y cyfan nid er mwyn cael ei weled gan ddynion, ond oherwydd ei fod yn cael hyfrydwch mewn gwneuthur daioni. Ffyrdd crefydd iddo ef oeddent ffyrdd hyfrydwch a'i holl lwybrau hi oeddent heddwch. Pe ceid llawer yn rhagor o'i fath ef daethai gwyneb y ddaear yn fwy tebyg i wyneb y nef. Bu iddo 13 o blant, ond erbyn hyn y mae chwech o honynt wedi eu cymeryd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr, ac o'r saith sydd ar ol un yn unig arosodd gyda'i dad hyd ei derfyn. Bu hwn yn ymgeledd mawr iddo yn nyddiau ei wendid a'i lesgedd, ac yn sicr ni chyll ei wobr. Duw fendithio'r plant, yr wyrion a'r orwyrion, ynghyd a'r gangen fechan o'r eglwys Gristionogol y perthynai iddi a modd i wneud y goreu o'r ddau fyd fel y byddont yn foddion i brysuro teyrnas Dduw.

EBRILL 23, Magdalen Davies, Bryneryr, Talgareg. Cofia llawer hi fel Magdalen, Crugyreryr, lle y bu hi byw am flynyddau lawer, wedi colli priod hoff ac anwyl. Yr oedd yn fam i naw o blant, a'r oll yn fyw oddigerth un ferch, yr hon a fu farw yn ei babandod. Cafodd ei gadael yn weddw pan nad oedd yr ieuengaf ond dwy flwydd oed. Syrthiodd felly faich a chyfrifoldeb mawr ar ei hysgwyddau. Gadawodd ei phriod ei holl eiddo dan ei gofal er dwyn y plant i fyny i fod yn abl i sefyll pob un drosto ei hun, ac wedi i'r ieuengaf gyrhaedd ei oed bu raid i'r oll o'r Ystad fyned dan y morthwyl. Bu yr ymadawedig yn ffyddlawn yn ystyr lawnaf y gair i'r ymddiriedaeth. Nid heb lawer o anhawsderau a gofidiau y gallodd hi wneud hyn. Bu hi yn ymarhous ac amyneddgar hyd y diwedd. "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Dyna destyn pregeth ei hangladd, a chymwys iawn y geiriau. Dynes ddistaw a didderbynwyneb oedd ein chwaer. Sych a thrwstan ei hymadrodd yn aml, ond calon yn well na gair. Bu yn fam dyner a gofalus, yn feistres garedig a hawddgar. Melus yr adgofion am dani. Yr oedd y babell o bridd wedi dadfeilio er ys tro, a dioddefodd ei chystudd yn amyneddgar a distaw. Bu yn aelod ffyddlawn gyda'r Annibynwyr yn Pisgah hyd derfyn ei hoes, ond anaml y gallai fynychu'r addoliad y blynyddau olaf. Cludwyd yr hyn oedd farwol o honi i orphwys i fynwent Bwlchyfadfa, yn ymyl ei phriod. Yn absenoldeb gweinidog

yn Pisgah, gwasanaethwyd ar yr achlysur, yn y ty, gan y boneddwr parchus, Mr. Morgan Evans, Y.H., Dderwengam, yr hwn oedd gefnder i'r ymadawedig. Pregethwyd yn y capel oddiar y geiriau uchod gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd i alaru ar ei hol ddau fab a chwech o ferched, a dau frawd—un o honynt tuhwnt i'r Werydd. Yn eu galar boed i'r geiriau uchod fod yn nerth ac ysprydoliaeth iddynt ar daith bywyd, "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth."—T. G. T.

EBRILL 24, yn 33 mlwydd oed, David James Daniel, Drewen, Dihewyd. Gwael oedd iechyd yr ymadawedig wedi bod er's rhai blynyddau, a bu yn gystuddiol am amryw fisoedd cyn y terfyn. Yr oedd yn nodedig am ei ddiwydrwydd a'i ymroddiad i'w waith. Mynwesai deimlad da tuag at bawb, ac ni wnai niwed i neb. Caled iawn i'w briod ieuanc oedd ei golli mor gynar. Nodded y nef fyddo drosti hi a'i thri phlentyn. Caled iawn i'w dad oedd ei golli gan mai efe oedd ei unig blentyn. Duw'r nefoedd fyddo gydag ef yn ei unigedd. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent capel Dihewyd. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. Stephen Jones, offeiriad y plwyf; E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, a D. R. Thomas, Mydroilyn.

EBRILL 28, yn 70 mlwydd oed, William Thomas, Maengerfiwr, Heol Herbert, Pontardawe. Gorchwyl caled yw ymwneud â'r gwaith o gofnodi marwolaeth a chladdedigaeth un o frenhinoedd crefydd y cylchoedd hyn. Ni charem ormodedd, ond dywedwn, heb y gradd lleiaf o betrusder, na fu ffyddlonach mynychwr yn bod na'r ymadawedig. Aberthodd yn sylweddol i achos crefydd. Mae hunanaberth, ac y mae *hunanaberth*. Dyma hananaberthwr! Beth pe bae pob canlynwr i Iesu Grist fel y dyn hwn? Son am rwystrau! nid oedd y gair hwn yn delio a rhaglen ei fywyd ef o o gwbl. Camodd feini yn ddirif, braidd, do, feini rhwystrau mawrion. Ni chafodd dim ond afiechyd corporol ei atal i gerdded ar hyd llwybrau Seion. Mae blodau, llwyni, a choed deiliog yr haf, mae canu adar, hefyd yn dystion diamwys i'w ffyddlondeb ar lwybrau crefydd. Cofia Seion fagu tebyg! Bu yn ddiacon trylwyr yn Gellionen a'r Graig am oes gyfan. Wylodd yn hidl dros lwyddiant yr achos yn y lle. Gweithiai ac wylai bob yn ail, megis. Daliodd faner sobrwydd a dirwest i gyhwfan yn awyr ei argyhoeddiad dwfn trwy ei oes. Ynddo ef y temlodd y didwyll, yr iselfrydig a'r diymffrost. Dyma rinweddau blodeuog ei fywyd. Claddwyd ef yr Iau canlynol, yn mynwent Gellionen. Cafodd gynhebrwng anrhydeddus. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, gweinidog, yn doddedig iawn. Ychwanegwyd at y gwasanaeth gan y Parchedigion Seiriol Williams, Pontardawe; Gomer Richards, Trebanos a J. Price, Rhydyfro. Gwelwyd perthynasau, cydnabod a chyfoedion o bell ac agos yn talu'r gymwynas olaf iddo. Cyll yr achos un o'i phileri cryfaf yn mhob ystyr. Hyderwn y ca'r weddw, a'r plant a'r holl berthynasau, nerth a nodded yn y treial blin.

Hawdd i fywyd godi cofeb
I ffyddlonddyn,
Rodiodd feusydd defnyddioldeb
Mor ddilychwin;
Canodd fawl i Dduw dan wylo
Dagrau cariad;
Wylodd ganiad wrth weddio
Dros ei geidwad.

MAI 8, yn Llanfair Hill, plwyf Llanwenog, yn 4 oed, bu farw Rachel, merch fechan Evan a Sarah Davies, Ammanford. Claddwyd yn Nghapelygroes y Sadwrn canlynol, Mr. Davies yn gwasanaethu.

MAI 17, ar ol ychydig wythnosau o gystudd, David Thomas, Bryndelyn, Talgareg yn 60 oed. Dyn diddig ar ei aelwyd, parod fel cymydog, a ffyddlon fel crefyddwr oedd yr ymadawedig, dyn ag a berchid yn gyffredinol. Cynulleidfawr oedd a chynulleidfawr selog; fedrai gwlaw ac oerni ddim oeri ei sel a'i frwdfryd-

edd ef, ac yn ddiameu mae eglwys Brynrhiwgaled wedi colli un o'i ffyddloniaid yn ei symudiad ef ymaith. Gadawodd mewn galar briod (yr hon sydd yn aelod ffyddlon yn Capel-y-fadfa) tri o blant a pherthynasau eraill. Claddwyd y Llun canlynol yn Pisgah ; gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yn y capel gan y Parch. W. Griffiths, Maenygroes.

Mai 12, yn 22 oed, Evan Tom Lewis, mab Mr. a Mrs. David Lewis, Bronheulog, Llandyssul, gynt o Woodland, Talgarreg. Gwaith anhawdd ydyw cofnodi marwolaeth ein pobl ieuainc, pan mae eu haul megis newydd godi, a gyrfa eu bywyd ar ddechreu. Ar ol gorphen ei addysg yn yr ysgolion elfenol a chanolraddol yn Nhalgarreg, Aberayron a Llandyssul aeth yr ymadawedig am dymhor fel athraw cynorthwyol i Ysgol y Cynghor yn Pontsian, a thra yma daeth i'r penderfyniad i gysegru ei fywyd i waith y Weinidogaeth Undodaidd, ac aethai i Ysgol Ramadegol Pencader er parotoi ar gyfer ei dderbyniad i'r Coleg. Ond yn fuan tra yno ymddangosodd arwyddion fod yr "haint gwyn" wedi gafael yn ei gyfansoddiad, ac er gofal a chariad rhieni a brodyr a charedigrwydd a dymuniadau da cylch helaeth o gyfeillion, ehedodd ei yspryd at yr hwn a'i rhoes er galar a siom mawr. Clywyd ef yn pregethu o lawer o'n pwlpudau a phroffwydwyd dyfodol defnyddiol iddo. Yr oedd o dymer addfwyn, ac yspryd brwdfrydig yn ei waith, ond dyryswyd yr holl gynlluniau, a gorfodwyd ni i ddysgu o'r newydd mai "uwch ei ffyrdd ef na'n ffyrdd ni." Estynwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w rieni, ei frodyr, a chylch ei berthynasau. Y dydd Mercher dilynol cafodd angladd parchus pryd y cludwyd ei weddillion i fynwent Bwlchyfadfa. Gosodwyd ar fan fechan ei fedd amryw flodau-dyrchau oddiwrth gyfeillion, ac hefyd oddiwrth Ysgolion Sul y Graig a'r Bwlch. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. T. Arthur Thomas ac E. O. Jenkins.

Ar y 25ain o Ebrill, yn 21 oed, bu farw Timothy James Evans, mab Jenkin a Catherine Evans, Pwllglas, Llanbedr, ar ol amryw fisoedd o gystudd. Bu ein cyfaill ieuanc yn gwasanaethu yn maelfa y diweddar Mr. Spencer Lloyd, Treorchy, am rai blynyddau. Ond tua blwyddyn a haner yn ol dechreuodd ei iechyd wanychu ; ac er iddo adferyd yn rhanol y pryd hyny, eto torodd i lawr eilwaith yr Hydref diweddaf ; ac o hyny allan er gwaethaf pob tynerwch a gofal mam, a medr meddyg, gwanhaodd yn raddol, a'r dydd uchod ehedodd ei yspryd at yr hwn a'i rhoes. Dyn ieuanc, hynaws ei yspryd, cywir ei rodiad, ac ymroddgar ydoedd ; a diameu pe celai fywyd ac iechyd, y treuliai yrfa lwyddianus a defnyddiol. Y mae hyn yn felus i deimlad tad a mam, a brodyr a chwiorydd, heddyw pan y mae ei le yn wag. Y meddwl hwn a dyddanwch y Tad goreu a'u dyddano yn eu galar. Hebryngwyd ei ran farwol i fynwent Capelygroes y dydd Mawrth canlynol gan dyrfa luosog. Pregethwyd gan y gweinidog, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

MANION AC HANESION.

Graig, Trebanos.—Nawn Sadwrn, Mai 4ydd, yn Vestri y Graig, mwynhawyd gwledd o Dê—Tê croesawu ein gweinidog newydd oedd hwn, yn mherson y Parch. David G. Rees, o Benybontarogwy. Da genym gael y fraint i'w groesawu ef a'i deulu parchus i'n plith. Yn yr hwyr, yn y Graig, cafwyd Cyfarfod Adloniadol penigamp. Cafwyd anerchiadau barddonol gan Banos, Ioan o'r Graig, Harry Fychan, Brynfardd, ac Ap

Morgan. Siaradwyd ar ran a thros yr eglwys gan Mri. Henry Morgan; D. W. Davies; Lewis Morgan, Clydach. Cafwyd gair, hefyd, gan y Parch. D. Gower Richards, Gosen, Trebanos; ac atebodd Mr. D. G. Rees i'r oll mewn araeth dwt a chryno. Hir y pery yr undeb rhyngom. Aethpwyd drwy raglen faith o amrywion, a chyfeiliwyd gan Isaac E. Hopkin. Llywyddwyd yn flasus iawn gan Mr. John Hopkin, Brynderw. Melus, moes eto.

I'n Seion ni wnawn roesawu—ein
A'i fwyn rasol deulu; [Rees
Os arch y gwir wna barchu,
Yn awr Ion ca goron gu.

Am einioes i ben y mynydd—aed ef
A dwyfol leferydd;
O dan nef y wir grefydd,
A gâr iawn a dawn y dydd.
—*Brynfardd.*

CILIAU.——Ebrill 19, rhoddwyd Gwledd o Dê i bawb perthynol i'r eglwys, ac i amryw o'r tu allan. Daeth nifer dda yn nghyd, a mwynhaodd pawb eu hunain yn rhagorol. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Adloniadol, a chawsom hwn yn llawer gwell nag oeddem wedi disgwyl. Aed drwy raglen faith o ganu ac adrodd a dadleu. Cynorthwywyd ni gan amryw o'r tu allan i'r eglwys.

CAPELYGROES.—Prydnawn dydd yr Arholiad rhoddwyd Gwledd Dê i'r plant gan Mrs. Morgan, Moelfre.——Cynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion eleni yn Nghapelygroes, dydd Llun, y 19eg o Fai. Daeth pedair ysgol yn nghyd—Capelygroes, Alltyplacca, Llanbedr a Chaeronen. Adroddasant ranau o'r Ysgrythyr, a holwyd hwy gan y gweinidogion lleol. Yn yr hwyr cafwyd *Rehearsal* dan arweiniad Mr. J. R. Thomas.

CAPELYBRYN.—Ar yr 16eg o Fai y cynhaliwyd cymanfa y dosbarth hwn. Daeth pnmp o ysgolion yn nghyd—Ciliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn a Sychbant. Yr oedd yr ysgolion yn lluosog, ac aethant trwy eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Y gweinidogion lleol oedd yr holwyr. Yn yr hwyr cynhaliwyd *Rehearsal.*

CYMANFA GANU UNDODIAID MORGANWG.—Cynhaliwyd Cymanfa Gerddorol Flynyddol Undodiaid Sir Forganwg, yn Trecynon, Aberdar, dydd Llun, Mai yr 20fed. Daeth tyrfa luosog iawn ynghyd, a chafwyd canu ardderchog. Yr oedd cynrychiolaeth gref yn bresenol o Trebanos a Chefncoed-y-cymer, a gwelsom gyfeillion o Dowlais, Merthyr, Pentre, Clydach Vale, a'r Wig yno. Yr oedd capel yr Hen-Dy-Cwrdd yn llawer rhy fach i gynwys y cantorion i gyd, a chawsom fenthyg Carmel—capel eang a hardd y Methodistiaid Calfinaidd—am y dydd. Mae pobl yr Hen-Dy-Cwrdd yn teimlo'n ddiolchgar iawn i weinidog ac eglwys Carmel am ddangos yspryd mor frawdol tuag atom. Carem wel'd rhagor o'r yspryd hwn yn ffynu rhwng y gwahanol enwadau yn y lle. Yr arweinydd eleni oedd Mr. Dan Davies, Aberdar, ac aeth trwy ei waith yn ddeheuig iawn. Dechreuwyd gwasanaeth y boreu gan y Parch. J. Glynne-Davies, Hen-Dy-Cwrdd, a llywyddwyd gan Mr. J. L. Rowlands, Golygydd yr "*Aberdare Leader.*" Canwyd y tonau canlynol—Sanctaidd, Croesaw, Harrington, Bangor, Carey's, Naomi, a'r anthemau, "Ar lan Iorddonen ddofn" (*Gabriel*), ac "O Father whose almighty power." Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. Lewis Morgan, Clydach. Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn gan y Parch. J. Cararra Davies, Cefncoed, a llywyddwyd gan Mr. L. N. Williams, Y.H., Caecoed. Un o gewri y ffydd Undodaidd yw Mr. Williams, ac y mae bob amser yn barod i wneud ei ran yn ngwaith yr enwad. Canwyd yn y prydnawn y tonau—Windermere, Kilmorey, Hiraethog, Lux Benigna, Pearsall, Rhydygroes, a'r ddwy anthem. Er rhoddi ychydig orphwys i'r cantorion cafwyd Unawd gan Miss M. Davies, Aberdar, ac Adroddiad gan Miss Ceinwen Davies, Trebanos. Siaradwyd hefyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a'r Parch. D. Stephens, gweinidog Carmel. Terfynwyd drwy

weddi gan y Parch. J. P. Kane, Dowlais. Yn yr hwyr, dechreuwyd gan y Parch. D. G. Rees, Gellionen, a llywyddwyd eto gan un o golofnau yr achos yn y gymydogaeth, Mr. Gomer Ll. Thomas, Merthyr. Canwyd y tonau canlynol—Graig, Melita, Regent Square, Pembroke, Rhydygroes, a'r ddwy anthem eto. Yn ychwanegol i hyn cafwyd Adroddiad gan Mr. Lewis Lewis, Hen-Dy-Cwrdd, a Deuawd gan Miss M. Davies a Miss George, Aberdar. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresog i weinidog a chynulleidfa Carmel am fenthyg y capel am y dydd, gan y Parch. R. J. Jones, ac eiliwyd gan Mr. Gwilym Griffiths. Terfynwyd drwy weddi gan y Parch. R. J. Jones. Y teimlad cyffredin oedd ein bod wedi cael cymanfa lwyddianus yn mhob ystyr, a gobeithio yr erys ei dylanwad yn allu ac yn ysprydoliaeth yn mywyd ein cynulleidfaoedd hyd y flwyddyn nesaf, pryd y gobeithiwn y cawn oll gydgyfarfod eto i ganu mawl i'r Creawdwr doeth a da sydd wedi ein donio a phob bendithion. Dylasem grybwyll hefyd mai yr Organydd am y dydd oedd y Proffeswr Richard Howells, Aberdar, hen organydd yr Hen-Dy-Cwrdd. Mae Mr. Howells yn adnabyddus i holl gerddorion Deheudir Cymru, a digon yw dweyd ei fod wedi gwneud ei ran yn ardderchog yn yr ŵyl hon. Gwnawn ein goreu etto erbyn y flwyddyn nesaf er i ni gael cymanfa lwyddianus, a chwrdd a'n gilydd yn dorf gref yn yspryd moliant yr Un Goruchel Dad.

Y Terfysg yn Birmingham.—Gwnaethpwyd llawer o wawd ar Lloyd George am iddo ddianc o derfysg Birmingham mewn gwisg heddgeidwad ac felly achub ei fywyd. Adroddid hyn fel pe byddai yn rhyw *ddisgrace* arno. Gallwn feddwl mai i'r terfysgwyr y perthynai'r *disgrace* mwyaf. Y mae Birmingham wedi enwogi ei hunan am ei therfysgoedd ragor nag unwaith o'r blaen. Gorphenaf 14, 1791, y bu'r terfysg mawr yno pan y llosgwyd ty Dr. Joseph Priestley oherwydd ei syniadau anmhoblogaidd. Yn ystod yr wythnos cyfansoddodd bregeth ar y testyn—"O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur," gyda'r bwriad i'w thraddodi y Sul canlynol. Teimlodd nad oedd ddiogel iddo aros i wneuthur hyny, ac fe'i darllenwyd gan arall. Yn fuan ar ol hyny, fe aeth i'r Amerig yn 1794, wedi ei alltudio mewn ystyr. Arweinwyr y terfysg oedd y gwyr eglwysig. Awst 25, 1791, mewn cyfarfod gweinidogion yn Llechryd, ar gynygiad y Parch. David Davis, Castell Hywel, pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Dr. Priestley, yn unfrydol, gyda'r eithriad o un, a'r un hwnw yn weinidog Annibynol poblogaidd. Pwy oedd hwnw? Byddai yn ddyddorol cael gwybod.

Y Cadben a'r Mate.—Fel rheol y *Mate* sydd yn gofalu am y *Log Book*, ond ar yr amgylchiad y cyfeiria'r stori ato fe'i cedwid gan y Cadben, ac fel hyn y rhedai—*Monday—Mate drunk to-day*; *Tuesday—Mate drunk to-day*; ac felly bron bob dydd. Un diwrnod, fodd bynag, syrthiodd y ddyledswydd ar y *Mate*, ac fel hyn yr ysgrifenodd—*Captain sober to-day!*

——

AMSER.

Yr amser *oedd* aeth heibio,
Nid ellir ei fwynhau;
Yr amser *sydd*, mae genyt,
Defnyddia'r moment brau;
Nid yw'r *dyfodol* amser,
Gall beidio gwawrio i ni;
Yr amser sy'n bresenol
Yw d'unig amser di.

—*Caledfryn.*

——

Y sawl sy'n beio Deio, beied,
Y sawl sy'n byw'n ddifai, ynganed;
Y sawl sy'n byw'n eu beiau beunydd,
Gadawed rheiny Deio'n llonydd.

Hen Benill.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd—Y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield.
Y Pregethwr—Y Parch. Jenkyn Thomas, Glossop.

—CYNHELIR—

Cyfarfodydd ❀ Blynyddol

.. YR UCHOD ..

—YN CAPELYFADFA,—

Dyddiau Mercher ac Iau, Mehefin 26 a 27, 1912

Bydd trefn y Cyfarfodydd fel y canlyn—

Dydd Mercher, am 6.30 o'r gloch, dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. T. A. Thomas. Pregethir gan y Parchn. J. Carrara Davies a E. R. Dennis.

Dydd Iau, am 9 o'r gloch, Pwyllgor y Gymdeithas.

,, am 10.30 o'r gloch, dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans. Pregethir gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

,, am 2 o'r gloch, dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. John Davies. Pregethir gan y Parchn. E. Gwilym Evans a Jenkin Thomas.

,, am 6 o'r gloch, dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. Lewis Williams, a phregethir gan y Parchn. James G. Davies a D. G. Rees.

DALIER SYLW.—(*a*) Dymuna cyfeillion Capelyfadfa estyn croesaw cynhes i Weinidogion ac eraill i'r cyfarfodydd hyn. (*b*) Gwneir casgliad yn mhob oedfa. (*c*) Cenir llawer o Donau allan o ragleni Cymanfaoedd Canu 1911 a 1912. (*d*) Bydded i'r rhai fyddant am gael eu cludo o Orsaf Llandyssul prydnawn dydd Mercher, a Llety dros y cyrddau, ymohebu a'r

Parch. E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandyssul.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

FOOTWEAR of QUALITY.

We Stock a good Selection of Ladies', Gentlemen's, & Children's Boots & Shoes for all occasions.

We do not pin our faith to "One-Price" as though, in some unexplainable fashion, all the virtues were inseparably connected with some particular combination of figures.

We offer you a choice, at a range of prices which covers all requirements with the Utmost Value at the Price in every Pair.

Next time, try a pair of Ben. Evans' Boots and test the value "in the wear."

BEN. EVANS & Co., Ltd.,

SWANSEA.